Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: PO798/EJ/OR
Ein cyf/Our ref

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

12 Chwefror 2020

Annwyl Elin,

Tynnu Offerynnau Statudol yn ôl

Diolch ichi am anfon copi ataf o'ch llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) (Diwygio) 2019.

Hoffwn eich sicrhau bod prosesau wedi'u sefydlu i osgoi amgylchiadau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

Digwyddiad anghyffredin iawn oedd hwn heb unrhyw gynsail, naill ai yma yn y Senedd, neu yn Senedd y DU. Pan ddaeth yr hepgoriad i'r goleuni cydweithiodd fy swyddogion â staff Comisiwn y Senedd i drafod sut i fynd i'r afael â'r mater. Yn wreiddiol y farn oedd mai'r cam gweithredu priodol fyddai tynnu Gorchymyn 2019 yn ôl o dan Reol Sefydlog 27.11 pan osodwyd y Gorchymyn 2020 drafft newydd, fel y nodwyd yn y llythyr oddi wrth Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig dyddiedig 11 Rhagfyr. Er hynny, casglodd trafodaethau pellach rhwng ein swyddogion nad fel hyn y dylid dehongli'r Rheol Sefydlog, ac yn y pen draw ni chafodd Gorchymyn 2019 ei dynnu'n ôl.

Diolch ichi am nodi'ch dehongliad chithau o Rheol Sefydlog 27.11, a'ch disgwyliadau o Llywodraeth Cymru pe bai mater o'r fath byth yn codi eto. Os bydd angen inni dynnu offeryn yn ôl ar ôl iddo gael ei wneud neu ei cymeradwyo, a lle nad yw dewisiadau eraill ar gael, rwyf yn falch o gadarnhau y byddem yn esbonio'r rhesymau ichi a'r Senedd, fel yr ydym wedi gwneud y tro hwn. Yn ystod dadl y Cyfarfod Llawn ar y Gorchymyn newydd ar 4 Chwefror, ymddiheurodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wrth y Senedd ac esbonio paham nad oedd modd i Reoliadau 2019 ddod i rym.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd